

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
3 Mawrth 2016 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Ifor Dylan Williams, Dafydd Iwan, Geraint R. Jones, Edd Hughes , Gwyneth Thomas,

Cadeirio: Erddyn Davies

Huw Llwyd Rowlands, Clerc

1. YMDDIHEURIADAU

Ian Jones, Sioned Williams, Emyr Williams

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd. Cynnig: Dafydd Iwan

Eilio: Edd Hughes

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Binau halen

Cafwyd eglurhad pellach gan Gyngor Gwynedd ar oblygiadau cymryd cyfrifoldeb am y binau halen.

- Pris llenwi clwstwr o finiau (isafswm o 3) fydd £80 y bin
- Pris llewni bin unigol fydd £156
- Pob bin yn cael ei archwilio a'i lenwi cyn 1 Hydref 2016

Cyngor Gwynedd fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r binau halen. Er defnydd y cyhoedd mae'r binau halen, ac felly does dim disgwyl i'r Cyngor Cymuned ysgwyddo cyfrifoldeb am daenu'r halen na chadw'r ffyrdd yn glir. Cafwyd ymateb tebyg gn Un Llais Cymru – sef mai talu am leni'r binau fyddai'r Cynghoru Cymuned, ac nid cymryd cyfrifoldeb am ddioglewch ffordd.

Cytunwyd fod Cyngor Cymuned Y Bontnewydd yn ysgwyddo cyfrifoldeb am 3 bin, sef 2 yn Llanfaglan ac un yn Lon Groes. Bydd hyn yn gost o £240 y flwyddyn.

4.2 Cylchdro Glan Beuno

Derbyniwyd copi o adroddiad cynhwysfawr Llywodraeth Cymru ar gylchdro Glan Beuno. Ei gasgliad yw peidio gwneud unrhyw newid a chadw gosodiad y ffordd fel ag y mae, gan ail dario'r marciau presennol.

Mynegwyd siom efo'r adroddiad, yn enwedig o gofio ymateb positif yn gyffredinol gan breswylwyr Bontnewydd i'r arbrawf.

Cytunwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at Lywodraeth cymru yn mynegi siom efo casgliad yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn canolbwyntio gormod ar ar amser gadael mynedfa Glan Beuno a llif y traffig o gwmpas y gylchdro yn hytrach na diogelwch wrth ddod allan o Glan Beuno.

.

4.3 Parcio Siop McColl's

Parheir i ddisgwyl dyluniad gan yr Asiantaeth Priffyrdd. Gobeithiant ddanfôn y dyluniad yn fuan.

Gwnaethpwyd gwaith ar y darn yma o'r ffordd yn ddiweddar, ond yn ol yr Asiantaeth Priffyrdd, nid yw hyn yn rhan o'r gwaith ar gyfer arafu lliniaru traffig o flaen y siop.

4.4 Arwyddion cyflymder fflachio 20/30 mya

Cysylltodd y clerch efo'r Asiantaeth Priffyrdd i ofyn pam fod yr arwyddion osodwyd er mwyn lleddfu cyflymder y traffig pan fo'r ysgol yn agor ac yn cau, yn dangos 20 mya ar y ffordd i mewn i Fontnewydd, ond 30 mya y tu allan i'r ysgol.

20 mya ddyali'r holl arwyddion eu dangos, ond gan mai Cyngor Gwynedd sydd efo'r cyfrifoldeb dros y ffordd o flaen Ysgol Bontnewydd, nid yw Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i ddod i gytundeb efo Cyngor Gwynedd i gael y gorchymyn priodol wedi ei wneud er mwyn lleihau'r cyflymder i 20 mya o flaen yr ysgol.

Ysgrifennodd y Clerc at Gyngor Gwynedd yn gofn iddynt roi'r cyflymder o 20 mya ar waith cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl, a cafwyd ateb yn egluro fod bwriad i wneud hynny erbyn diwedd gwyliau'r Pasg. Eglurwyd mai'r rheswm dros yr oedi oedd mai ond yn ddiweddar y cysylltodd yr Asiantaeth Priffyrdd efo Cyngor Gwynedd parthed y gwaith.

, .

4.5 Tyfiant coed a Llysiau'r cythraul tu cefn i'r Newborough Arms Bontnewydd

Nid yw'r Clerc wedi llwyddo i gael gwybodaeth bellach gan Carter Jonas, asiant Stad Glynllifon.

Cytunwyd felly y dylai'r Clerc wneud archwiliad yn y Gofrestrfa Dir, os nad oedd y pris yn fwy na £30.00.

4.6 Ffordd osgoi Bontnewydd – Penybryn a Rhos Bach

Ysgrifennodd y Clerc at Lywodraeth Cymru yn mynegi pryder am y bwriadau yn ardal Penybryn a Rhos Bach. Disgwylir ymateb.

4.7 Bin arosfan Bontnewydd

Nid yw Cyngor Gwynedd yn fodlon talu am osod bin yn yr arosfan. Cost bin i'w osod ar y polyn lamp fydd o leiaf £100 a TAW, a chostau gosod.

Yn ychwnaegol at hyn, bydd yn rhaid talu cyngor Gwynedd £3.11 bob tro y bydd y bin yn cael ei wagio.

Y Clerc i holi cyngor Gwynedd faint mor aml y bydd y bin yn cael ei wagio, ac os yw'n bosibl amywio faint mor aml y caiff y bin ei wagio yn ol yr angen. Byddai gwagio'r bin yn wythnosol yn costio £157 y flwyddyn.

4.8 Llifogydd Bontnewydd

Ysgrifennodd y Clerc at Gyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd. Cafwyd ateb gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn nodi y bydd adroddiad yn cael ei baratoi o dan yDdeddf rheoli Dwr a Llifogydd erbyn diwedd mis Mawrth.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a chostau clerch Chwefror 2016

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £253.18

Cyfanswm Net £211.58

5.2 Costau postio £1.80

5.3 Costau Archwiliwr Allanol UHY 2015/16 £336.00

5.4 PWLB £406.35 14 Mawrth 2016

5.5 Aelodaeth Un Llais Cymru £135.00

5.6 Balans yn y banc 3 Mawrth 2016 £7187.87

6. Cynllunio a Materion Cyfreithiol Eraill

Dim.

7. GOHEBIAETH

- Ymateb Un Llais Cymru i Fil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru)
- Datblygiadau o Arwyddocad Cenedlaethol

Derbyniwyd yr uchod er gwybodaeth

8. MATERION ERAILL

8.1 Ymgynghoriad Gwynedd a Mon ar Newidiadau a Ffocws i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd 25Chwefror – 13 Ebrill 2016

Derbyniwyd adroddiad gwynedd a Mon ar newidiadau technegol a wnaed i'r Cynllun Datblygu Lleol. Does dim newidiadau yng nghymuned Bontnewydd.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

7 Ebrill 2016 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd

